| CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | | NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU**<br><br>**STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y**<br><br>**I N S T R U M E N T S** |
| **2001 Rhif (Cy. )** | | **2001 No. (W. )** |
| **ADDYSG, CYMRU** | | **EDUCATION, WALES** |
| **Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001** | | **The Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2001** |
| | | |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)* | | **EXPLANATORY NOTE**<br><br>*(This note does not form part of the Regulations.)* |
| | | |
| Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997 ("Rheoliadau 1997") mewn perthynas â blwyddyn ysgol yn dechrau ar 1 Medi 2001 neu wedyn. Mae Rheoliadau 1997 yn darparu ar gyfer talu grantiau o ran mân dreuliau, ac ar gyfer peidio â chasglu mân dreuliau, mewn perthynas â disgyblion sy'n gymwys i barhau i gael lleoedd a gynorthwyir mewn ysgolion annibynnol yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997, er bod y cynllun cymorth lleoedd wedi'i ddileu gan adran 1 o'r Ddeddf honno. | | These Regulations amend the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) Regulations 1997 ("the 1997 Regulations") in respect of a school year beginning on or after 1st September 2001. The 1997 Regulations provide for the payment of grants as regards incidental expenses, and for the remission of incidental expenses, in respect of pupils eligible to continue to hold assisted places at independent schools by virtue of section 2 of the Education (Schools) Act 1997, notwithstanding the abolition of the assisted places scheme by section 1 of that Act. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r Rheoliadau hyn yn llacio'r prawf moddion ariannol (a nodir yn rheoliad 2 o Reoliadau 1997) ac yn cynyddu swm y grant sy'n daladwy ar gyfer grant gwisg ysgol o ran gwariant ar ddillad a dynnwyd mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol 2001/2002 a'r blynyddoedd ysgol dilynol. | | These Regulations relax the means test (set out in regulation 2 of the 1997 Regulations) and increase the amount of grant payable for uniform grant in respect of clothing expenditure incurred in relation to the 2001/2002 and subsequent school years. |
| Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn llacio'r prawf moddion ariannol (a nodir yn rheoliad 4 o Reoliadau 1997) ar gyfer grantiau teithio ac yn cynyddu swm y grant a delir. | | These Regulations also relax the means test (set out in regulation 4 of the 1997 Regulations) for travel grant and increase the amount of grant payable. |

| | | |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S** |
| **2001 Rhif (Cy. )** | | **2001 No. (W. )** |
| **ADDYSG, CYMRU** | | **EDUCATION, WALES** |

| | | |
|---|---|---|
| **Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001** | | **The Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2001** |
| *Wedi'u gwneud 2001*<br><br>*Yn dod i rym 1 Medi 2001* | | *Made 2001*<br><br>*Coming into force 1st September 2001* |
| Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(3), (4), (5) a (9) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997**(a)** ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**(b)**. | | The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 3(3), (4), (5) and (9) of the Education (Schools) Act 1997**(a)** and now vested in the National Assembly for Wales **(b)**. |
| | | |
| **Enwi, cychwyn a chymhwyso** | | **Citation, commencement and application** |
| | | |
| **1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Medi 2001. | | **1.**-(1) These Regulations may be cited as the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 1st September 2001. |
| | | |
| (2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig. | | (2) These Regulations apply to Wales only. |
| | | |
| (3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol sy'n dechrau ar 1 Medi 2001 neu wedyn. | | (3) These Regulations apply in relation to any school year beginning on or after 1st September 2001. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997** | | **Amendment of the Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) Regulations 1997** |
| | | |
| **2.**-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau)1997**(c)** fel a ganlyn. | | **2.**-(1) The Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) Regulations 1997**(c)** shall be amended as follows. |
| | | |
| (2) Yn rheoliad 2(2), yn lle "£11,718" rhoddir "£11,952". | | (2) In regulation 2(2), for "£11,718" there shall be substituted "£11,952". |
| | | |
| (3) Yn lle rheoliad 2(3)(a) a (b) rhoddir - | | (3) For regulation 2(3)(a) and (b) there shall be substituted - |
| | | |
| "(a) £73 where the relevant income does not exceed £11,116; and | | "(a) £73 where the relevant income does not exceed £11,116; and |
| | | |
| (b) £38 where that income exceeds £11,116 but does not exceed £11,952." | | (b) £38 where that income exceeds £11,116 but does not exceed £11,952." |
| | | |
| (4) Yn rheoliad 4 - | | (4) In regulation 4 - |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| (a) ym mharagraff (3), yn lle "£10,914 " rhoddir "£11,129"; a | | (a) in paragraph (3), for "£10,914" there shall be substituted "£11,129"; and |
| | | |
| (b) ym mharagraff (4) - | | (b) in paragraph (4) - |
| | | |
| (i) yn lle "£10,914" rhoddir "£11,129", a | | (i) for "£10,914" there shall be substituted "£11,129", and |
| | | |

(ii) yn lle "£10,735" rhoddir "£10,950".

(ii) for "£10,735" there shall be substituted "£10,950".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(ch)**.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(d)**.

[ ] 2001

[ ] 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

**[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]**

(a) 1997 p.59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1997/1969, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1585, O.S. 1999/1505 ac O.S. 2000/1939 (Cy.137).

(ch) 1998 p.38.

(a) 1997 c.59. Section 3 is amended by section 130 of the School Standards and Framework Act 1998 (c.31).

(b) The functions of the Secretary of State under section 3 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1997/1969, amended by S.I. 1998/1585, S.I. 1999/1505 and S.I. 2000/1939 (W.137).

(d) 1998 c.38.